


Gymreig yr ardal. Ni allwn beidio â chofio ysgrif y Dr. Emyr Wyn Jones 'Hanesyddiaeth Ogwyddol? Cymru a Maes Bosworth' lle dadlennir ymgais bwriadol haneswyr o Saeson i fychanu neu anwybyddu'n llwyr unrhyw ran a chwaraewyd gan y Cymry.(Gw. Cyndyn Ddorau ac Ysgrifau Eraill. (Llyfrau'r Faner, 1978, tt. 147-186.) Teg dweud, er hynny, bod llyfryn James Bailey yn llawer mwy goleuedig na'r panel.

Plant yn dysgu argraffu

Gofynnwyd imi gyfrannu ysgrif i Ramant Bro, sef cylechgrawn hanes ardderchog Cymdeithas Hanes Bro Ffestiniog. Gan nad hanesydd mohonof, ni allwn gynnig dim ond cipolwg ar fy nghasgliad oes o gyhoeddiadau sydd a wnelont â'r ardal. Yn eu plith cefais bethau o'r tu hwnt i'n ffiniau. Dyma ddau lyfryn anarferol iawn o Ddolwyddelan: Plannu Coed gan E.D.Rowlands B.Sc. (Llwyngwriol) (tt.8, d.d., Gwasg Ysgol y Cyngor, Dolwyddelan.) a Robin Bryn Coed: Hanes Bechgyn y Wlad gan H.I.Huws (tt.28, Gwasg Ysgol Dolwyddelan, 1940.) Ceir rhai darluniau toriad leino yn y cyntaf, ac ar ei glawr ôl dywedir 'Y darluniau a'r argraffu gan J.Ogwen Ellis Ysgol y Cyngor Dolwyddelan'. Fel y dywed y teitl, llyfryn ynghylch plannu coed yw, ar gyfer plant. Anturiaethau'r plant ysgol Robin, Wil a Jac a geir yn yr ail, tebyg i rai William a'i griw yn llyfrau Richmal Crompton; Yn y Rhagymadrodd dywed H.I.Huws 'Ysgrifennwyd yr hanesyn hwn yn fwyaf arbennig i roddi nod pendant a pharhaol i'r bechgyn yn eu gwaith o



Ci a chwingen ar y mur deheuol.

ddysgu argraffu. Amcan arall oedd ceisio creu diddordeb yn y pridd, ei ramant a'i ryfeddodau, a chodi awydd am gydweithio â Natur mewn creu ac adeiladu. Ychydig iawn o arolygiaeth a gafodd y bechgyn ar wahân i gywiro'r proflenni. Torrwyd y darluniau leino yn y dosbarth dan ofal Mr R.Williams ...' Rhestrir yr argraffwyr: William A.Morris, Morris Hughes, Eslie Roberts, Arthur G.Roberts, J.Ogwen Ellis.

Gwasg mewn ysgol gynradd

Amrwd yw'r darluniau ac nid yw'r argraffwaith na'r papur yn wych, ond o waith plant ysgol gynradd, mae'n syndod: tybed nad yw'n unigryw? Ni chlywais i erioed am wasg ysgol, gynradd nac uwchradd, yn unman arall. Cofier mai adeg y rhyfel oedd hyn: yr oedd cyhoeddwyd yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar bapur. Ai oherwydd diffyg llyfrau testun addas yr aeth yr athro blaengar hwn ati? A werthid y llyfrynau hyn? A gyhoeddwyd ychwaneg? Pa faint o'r disgyblion a aeth yn argraffwyr? Cyfeirir at yr wynebdden at gylchgrawn yr ysgol, Dolwyddegin, nas gwelais erioed. Aeth Dolwyddelan (pentre'r gwew, chwedl ninnau erystalwm) yn bentref o dai haf i Cliff Richard ac eraill, ond tybed a erys rhai o'r hen do a allai ddweud tipyn o hanes y fenter hon wrthym?

Argraffiad arbennig o'r Gwledigaethau

Ychydig iawn o esgus y mae ei angen arnom i fynd i Bortmeirion a buom yn esgud yn derbyn gwahoddiad Cyfeillion Ellis Wynne i fynd yno, gyda'r nos Hydref 6ed, i weld lansio fideo a llawlyfr i'r Lasynys Fawr. Nid yn aml y ceir cyfle i weld tu mewn Neuadd Erewlff, a'i nenfwd plastr sy'n dangos deuddeng camp Erewlff. Cafwyd cyflwyniadau gan Elfed Roberts a chan y prif awdurdod ar Ellis Wynne, sef yr Athro Gwyn Thomas. Gwaith yr Athro yw llawer o gynnwys y llawlyfr. Cyflwynodd Cyril Jones inni ffilm o'i ymweliad ef a chyfeillion eraill â phentref Torre de Juan Abad yn Sbaen, cartref y llenor Francisco Gomez de Quevedo a lle ymwelwyd â'r amgueddfa fechan sy'n ei goffâu. Ef oedd awdur y Sueños a gyfieithwyd i'r Saesneg gan Roger l'Estrange fel the Visions of Quevedo, a ysbydolodd Ellis Wynne. Yn y fideo gwelsom y Lasynys Fawr wedi ei hadfer a'i dodrefnu yn null cyfnod Ellis Wynne, a hyd yn oed gysgod yr ysbyrd sy'n cerdded un o'r llofftydd!



Cerfiad o Grythor ar fur gogleddol y gilfach.

Mae'n werth ymweld â'r Lasynys: nid yw'n bell o fin y ffordd rhwng Harlech a Maentwrog. Tybed a wŷr pawb ohonoch am yr argraffiad arbennig o'r Gwledigaethau a gyhoeddwyd gan y Cyfeillion yn 1991? Golygwyd y testun a'i ddiweddarau fymryn, gan P. J. Donovan a'r Athro Gwyn Thomas, gyda nodiadau'r Athro. Argraffiad cain iawn ydyw ar bapur da, wedi ei rwymo mewn lledr gwyrdd tywyll, gydag ymylon aur, ac mewn eas cadw solet: gwaith Gwasg Gomer, ac yn fargen am hanner canpunt. O'r 350 a argraffwyd, rhif 274 yw f'un i, felly fe allech fod yn ffodus a chael copi, ond brysiwch. (Yn rhyfedd iawn, ni welaf gyfeiriad at y gyfrol hon yn y llawlyfr ei hun.) Un peth a'm trawodd: ar ddiwedd y testun dywedir: 'Diwedd y Rhan Gyntaf'. Pa beth fu hanes yr ail ran? Holais yr Athro. Yn rhesymol, meddai, gellid disgwyl mai Gwledigaeth Paradwys fuasai honno, ond ni welodd olau dydd. Bu traddodiad ar lafar gwlad i Ellis Wynne gael ei gyhuddo o lèn-ladrad yn y rhan gyntaf, ac iddo daflu'r ail ran i'r tân, ond go brin y gellir credu hynny. Tebycach yw i'r ysbyrdoliaeth ballu: haws dychmygu erchyllterau Uffern na disgrifio dedwyddwch perffaith. Mae Paradiso Dante (meddai Gwyn) yn llai cofiadwy na'r Inferno a'r Purgatorio! I gael y llyfr, y llawlyfr neu'r fideo, neu i ymaelodi â'r Cyfeillion, cysyllter â Swyddfa'r Lasynys, Is-y-deri, Harlech LL46 2UT; ffôn: 01766 780 846.